# Nadolig Llawen!

Annwyl blantos Rhostryfan, Mrs Huws a Miss Ellis,

Gobeithio eich bod yn edrych ymlaen at y Nadolig!

Ydi'r corrachod direidus wedi cyrraedd eich tŷ chi eto?

Fel y gwyddoch Noswyl y Nadolig, mi fydda i allan drwy'r nos yn cludo anrhegion i blant y byd i gyd. Ond mae fy nghôt, fel finnau, yn hen iawn ac mae'n dechrau gollwng dŵr!

Mae Mrs Corn wedi dweud ei bod hi am wneud côt newydd i mi ond does yr un o'r ddau ohonom yn gwybod pa ddefnydd yw'r gorau i wneud côt law dda.

Rwy'n gwybod yn iawn eich bod chi'n blant gweithgar a deallus yn Rhostryfan acw. A wnewch chi wneud arbrawf efo Mrs Huws i weld pa ddefnydd sydd yn dal dŵr orau?

Hefyd ewch ati i gynllunio côt i mi - dyma ychydig o fotymau i chi ei haddurnio.

Diolch o galon a chofion gorau!

*Siôn Corn*

